



Ministry  
of Justice

# Sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol

## Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad

### Trosolwg

Mae'r Llywodraeth yn falch o gyhoeddi y bydd yn sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol (IPA).

Mae teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn dilyn trychinebau mawr, fel trychinebau Hillsborough a Tŵr Grenfell, wedi sôn yn aml am sut roedden nhw'n teimlo nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed; a sut roedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu dadrymuso ac yn methu cymryd rhan lawn yn y prosesau ymchwilio a oedd yn dilyn y digwyddiadau erchyll hynny. Yn y cyd-destun hwn y cynigiwyd yr awgrym o gyflwyno IPA am y tro cyntaf. Byddai IPA yn cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn trychineb ac yn eu cefnogi mewn ymchwiliadau ac archwiliadau dilynol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer IPA rhwng 10 Medi a 3 Rhagfyr 2018 a gofynnodd am farn ynghylch y ffordd orau i gorff o'r fath gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn trychineb. Gofynnwyd am farn gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys y rheini yr effeithiwyd arnynt yn flaenorol gan drychineb, sefydliadau sy'n darparu cymorth i deuluoedd mewn amgylchiadau o'r fath, ac awdurdodau cyhoeddus sy'n ymchwilio i drychinebau neu'n arwain y cwestau a'r ymchwiliadau dilynol.

derbyniwyd (24) o ymatebion drwy'r hyb ymgynghori ar-lein, (17) drwy e-bost, a (1) drwy'r post. Cafwyd (6) sesiwn ford gron hefyd i gasglu barn. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ystyriwyd yr ymatebion yn ofalus fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisi ac mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion hynny.

## Crynodeb o'r ymatebion

### Ydych chi'n cytuno â ni ynghylch yr angen am Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol? (Cwestiynau 1A ac 1B)

- O'r (42) o ymatebion ysgrifenedig; roedd (31) yn cefnogi'r cynnig i sefydlu IPA, roedd (4) naill ai'n niwtral neu'n cefnogi'r IPA, yn amodol ar sicrwydd arall, fel lleihau'r risg o orgyffwrdd â gwasanaethau a ddarperir gan gynghorwyr cyfreithiol a sicrhau annibyniaeth yr IPA. nid oedd (4) yn cefnogi'r IPA fel y cynigiwyd a nid oedd (3) yn cefnogi sefydlu IPA mewn unrhyw ffurf. Yn y 6 sesiwn i randdeiliaid; (1) sesiwn, roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cefnogi'r cynnig, (3) sesiwn, roedd y rhai a oedd yn bresennol yn niwtral o ran sefydlu IPA, (1) roedd y rhai a oedd yn bresennol yn erbyn ac yn (1) roedd ymatebion y rhai a oedd yn bresennol yn amhendant.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid yr angen am IPA. Roedd y lefel hon o gefnogaeth yn sail i benderfyniad y Llywodraeth i sefydlu'r IPA.

### Sut y dylid penderfynu a yw digwyddiad yn drychineb y dylai'r Eiriolwr Annibynnol fod ar gael ar ei gyfer? (Cwestiwn 2)

#### A ddylai'r Eiriolydd Cyhoeddus Annibynnol gael ei gynnwys dim ond pan fydd marwolaethau? (Cwestiynau 4A a 4B)

### Ydych chi'n credu y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod â rôl mewn gweithio gyda phobl sydd mewn profedigaeth lle mae pryderon yn cael eu codi am ganlyniad ymchwiliad yn y gorffennol? (Cwestiynau 14A a 14B)

- Roedd y prif awgrymiadau ynghylch sut i benderfynu pryd y dylid defnyddio'r IPA yn seiliedig ar swm y marwolaethau/anafiadau (mewn cytundeb â pharagraff 38 yr ymgynghoriad); pryd bynnag y mae "digwyddiad mawr" wedi'i ddatgan; penderfyniad Gweinidogol; neu'n seiliedig ar natur a chymhlethdod y digwyddiad. Roedd lleiafrif o'r ymatebion (3) yn teimlo y dylai'r IPA gael ddefnyddio ym mhob sefyllfa, hyd yn oed os mai dim ond er mwyn arwain teuluoedd/dioddefwyr at y gefnogaeth sydd ar gael yn barod.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (25) yn erbyn defnyddio IPA mewn digwyddiadau'n ymwneud â marwolaethau yn unig gan ddweud y dylai'r IPA gael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer digwyddiadau'n ymwneud ag anafiadau torfol. Roedd (4) yn teimlo y dylai'r IPA ganolbwyntio ar gefnogi digwyddiadau angheuol yn unig gyda (13) yn darparu dim barn. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i gynnwys trychinebau nad ydynt o reidrwydd yn achosi marwolaeth/anaf ond sy'n cael effeithiau dwys eraill ar deuluoedd.
- Cafwyd safbwyntiau croes ar ddefnyddio IPA mewn digwyddiadau ôl-weithredol, fel ymchwiliadau blaenorol. Roedd (10) yn erbyn cael rôl, roedd (16) am gael rôl ac nid oedd (15) wedi mynegi barn.
- Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd yr IPA yn cael ei ddefnyddio gan yr Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn rhoi sylw dyledus i ddifrifoldeb, maint ac effaith y digwyddiad. Bydd yr IPA hefyd, yng ngoleuni'r ymatebion, yn cefnogi'r rhai sydd wedi'u hanafu yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael profedigaeth. Ni fydd yr IPA yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y gorffennol.

### A ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau wrth i'r Llywodraeth ychwanegu'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol at gyd-destun lle mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl yn gwneud darpariaeth statudol ar gyfer ymateb brys? (Cwestiynau 3A ac 3B)

- Pan ofynnwyd a ellid wynebu anawsterau wrth sefydlu IPA o fewn cyd-destun presennol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, sy'n darparu darpariaeth statudol ar gyfer ymatebion brys, teimlai (15) na fyddai unrhyw anhawster; nododd (3) fod angen diffinio rôl yr IPA yn glir; roedd (8) yn teimlo y byddai problemau; ac nid oedd (18) yn rhoi barn ar y pwnc hwn.
- Dywedodd y rhai a deimlai y byddai materion yn codi eu bod yn rhagweld problemau mewn meysydd megis cydlyniad mewn ymateb rhwng y gwasanaethau brys, Awdurdodau Lleol, a'r IPA, yn ogystal â materion yn ymwneud â rhannu gwybodaeth.
- Mae'r IPA wedi cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â nifer o randdeiliaid ar draws y maes ymateb brys, gan gynnwys ymatebwyr i'r Ymgynghoriad.

### Wedi'u grwpio: Cymhwysedd

Pwy ydych chi'n meddwl ddylai fod yn gymwys i gael cymorth gan yr Eiriolydd Cyhoeddus Annibynnol? (Cwestiwn 5)

A ddylai cymhwysedd am gymorth gael ei bennu gan y llywodraeth, drwy ddeddfwriaeth efallai, neu a ddylid ei adael i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol benderfynu arno yng ngoleuni'r amgylchiadau yn dilyn trychineb penodol? (Cwestiwn 6)

Ydych chi'n meddwl y dylai ffocws penodol Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ganolbwyntio ar gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth, neu ydych chi'n meddwl bod hyn yn rhy gyfyng? (Cwestiwn 7)

Sut y dylem sicrhau bod yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cefnogi'r holl bobl sydd mewn profedigaeth ac sydd am gael eu cefnogaeth, mewn amgylchiadau lle gallai'r rhai sydd mewn profedigaeth fod â safbwyntiau gwahanol ac sy'n gwrthdaro efallai? (Cwestiwn 9)

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cefnogi unigolion yr effeithiwyd arnynt/unigolion o ddiddordeb (22) fel rhai sydd mewn profedigaeth, rhai sydd wedi'u hanafu, a thystion uniongyrchol. Prin oedd y gefnogaeth (5) i gynnig cefnogaeth yn gyffredinol i "bawb" beth bynnag fo'u cyfraniad neu eu diddordeb personol.
- Roedd mwyafrif hefyd o'r ymatebwyr (24) a deimlai fod darparu cymorth i deuluoedd mewn profedigaeth yn unig yn ffocws rhy gyfyng, gyda (3) yn teimlo bod y lefel hon o ffocws yn gywir.
- Roedd (19) wedi ymateb y dylai cymhwysedd gael ei bennu gan yr IPA, yn hytrach na'r llywodraeth ehangach neu gael ei nodi mewn deddfwriaeth gydag (8) yn rhoi dim barn ac ymatebwyr eraill yn darparu safbwyntiau unigryw eraill fel sicrhau na fyddai cymorth yn destun profion modd (1) a (4) yn mynegi y dylid nodi rhai egwyddorion cyffredinol mewn deddfwriaeth.
- Teimlai rhai o'r ymatebwyr (19) y dylai'r IPA weithredu'n ddiuedd a bwydo holl safbwyntiau rhai sydd wedi cael profedigaeth a'r dioddefwyr i'r cwest a/neu'r ymchwiliad. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai'r IPA drin pawb yn gyfartal ac yn deg, ac roedd angen sicrwydd ar ymatebwyr y byddai anghenion unigol yn cael eu diwallu'n ddigonol. Ni fynegodd (6) unrhyw farn a darparodd y gweddill safbwyntiau unigryw eraill, er enghraifft awgrymodd (1) fod angen sefydlu system apelio.
- Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r polisi ynghylch cymhwysedd ar gyfer cymorth IPA wedi cael ei ddatblygu i gynnwys unigolion sy'n dioddef anafiadau meddwl o ganlyniad i 'ddigwyddiad cymwys' ac a oedd yn bresennol yn y digwyddiad. Bydd hyn yn cynnwys y rheini a oedd yn bresennol ond yr oedd effeithiau hynny yn ymddangos yn ddiweddarach. Ar ben hynny, bydd yr IPA yn weithredol annibynnol ar Lywodraeth EM ac felly bydd yn gweithredu'n ddiuedd ac yn darparu llais unedig ar gyfer y rhai sydd mewn profedigaeth ac wedi'u hanafu.

### Wedi'u grwpio: Cefnogaeth

Pa fath o gefnogaeth ddylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ei darparu cyn ac yn ystod ymchwiliad, gan gofio nad oes angen dyblygu cefnogaeth arall, neu amharu ar y rhai rhai sy'n ei darparu? (Cwestiwn 8)

Ydych chi'n cytuno y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ymwneud â'r ystod o wahanol fathau o ymchwiliadau, neu ydych chi'n meddwl y dylid cyfyngu eu cyfraniad i gwestau ac ymchwiliadau cyhoeddus? (Cwestiynau 10A a 10B)

A ddylai'r math o gefnogaeth a ddarperir gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod yn wahanol mewn gwahanol fathau o ymchwiliadau? (Cwestiynau 11A a 11B)

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (22) yn teimlo y dylai'r IPA fod yn weithredol ym mhob math o ymchwiliad gyda (6) yn erbyn y dull hwn ac nid oedd (12) yn mynegi unrhyw farn, fodd bynnag roedd (1) yn teimlo y dylid cyfyngu'r IPA i gwestau ac ymchwiliadau yn ystod y cynllun peilot.
- Pan ofynnwyd pa gymorth y dylai'r IPA ei ddarparu cyn ac yn ystod ymchwiliad, teimlai rhai ymatebwyr (15) y dylai'r IPA sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar gael i'r partïon sydd â diddordeb, boed hynny'n gyfreithiol, cwnsela neu lety ac ati. Roedd lleiafrif yn teimlo y byddai'r IPA yn dyblygu rolau a chyfrifoldebau asiantaethau eraill, a (2) yn teimlo y dylai'r IPA weithredu fel "corff gwarchod" dros gwestau, ymholiadau, gwasanaethau brys ac ati, gyda phwerau i alw tystion a gorfodi tystion.
- Er bod rhai ymatebwyr wedi pwysleisio y dylai'r IPA gynnig yr un lefel o gefnogaeth mewn pob math o wahanol o ymchwiliadau, roeddent yn cydnabod y gallai fod angen addasu cymorth yn dibynnu ar natur a chymhlethdod y trychineb ac anghenion yr unigolyn.
- Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, bydd yr IPA yn cael ei sefydlu ar y sail y bydd yn ymwneud ag ystod o wahanol fathau o ymchwiliadau lle bu 'digwyddiad cymwys' a'r IPA yn cael ei roi ar waith gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- Rydym wedi cydnabod yr angen i deilwra cymorth a bydd gan yr IPA rywfaint o ddisgresiwn o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaeth gefnogi, gan fod yn ofalus i beidio â dyblygu neu lesteirio gwasanaethau cymorth presennol.

#### Wedi'u grwpio: Adrodd

Ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol adrodd ar ei waith? (Cwestiynau 12A a 12B)

Beth ddylai pwrpas unrhyw adroddiad fod, ac a ddylai fod dyletswydd ar y llywodraeth i ymateb? (Cwestiwn 13)

Ydych chi'n credu y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod â rôl mewn cynghori gweinidogion lle mae pryder parhaus ynghylch canlyniad ymchwiliad? (Cwestiynau 15A a 15B)

- Roedd mwyafrif clir (26) o blaid bod yr IPA yn cynhyrchu adroddiad blynyddol a gyflwynir i Weinidogion. Roedd (4) yn erbyn y dull hwn ac nid oedd (12) yn mynegi unrhyw farn. Dywedodd rhai ymatebwyr (8) y dylai adrodd ddigwydd ar ôl unrhyw gwest a / neu ymchwiliad. Roedd ymatebwyr yn credu y byddai'r adroddiad yn cynnwys profiadau o ddigwyddiadau eu hunain (heb unrhyw wybodaeth allai ddatgelu pwy yw unigolion), gwersi a ddysgwyd ac unrhyw argymhellion dilynol.
- Pan ofynnwyd beth ddylai pwrpas adroddiad o'r fath fod ac a ddylai'r Llywodraeth ymateb, rhannwyd barn yn eang, ond y themâu allweddol oedd y dylai'r adroddiadau ganolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd a sicrhau tryloywder.
- Ar ben hynny, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (22) o blaid yr IPA yn cynghori Gweinidogion mewn amgylchiadau lle mae pryder parhaus, gyda (6) yn erbyn y syniad hwn.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid cael swyddogaeth adrodd i'r IPA, ac felly bydd yr IPA yn darparu adroddiad i Weinidogion. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd fel sy'n briodol.

- Ar ben hynny, bydd yr IPA yn gallu gwneud argymhellion nad ydynt yn rhwymo i'r Llywodraeth i'w hystyried.

#### Wedi'u grwpio: Panel IPA

Beth fyddai manteision ac anfanteision cael un Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gyda dirprwyon? (Cwestiwn 17)

Beth fyddai manteision ac anfanteision cael cnewyllyn o Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol? (Cwestiwn 18)

Yng ngoleuni popeth rydych chi wedi'i ddarllen yn y ddogfen ymgynghori, pa sgiliau, profiad neu gymwysterau penodol ddylai fod gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn eich barn chi? (Cwestiwn 19)

- Awgrymodd ymatebwyr y byddai panel (13), yn hytrach nag un eiriolwr, yn gwella capasiti, cadernid, ac amrywiaeth profiadau/sgiliau ond y gallai greu'r posibilrwydd o anghysondeb (4) wrth gymhwyso cylch gorchwyl ac ymgysylltu ehangach gan yr IPA.
- Awgrymodd ymatebwyr fod angen arbenigedd technegol a meddygol ar aelodau panel IPA (5), profiad cyfreithiol (11) a phrofiad o gwestau/ymholiadau (7). Ar ben hynny, roeddent yn nodi bod empathi a sgiliau pobl (15) yn bwysig er mwyn hwyluso ymgysylltu â'r gymuned ehangach.
- Ar sail adborth, bydd gan yr IPA strwythur panel a bydd ei faint yn cael ei bennu gan faint 'digwyddiad cymwys'.

Sut dylai'r llywodraeth sicrhau bod rôl Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol bob amser yn cael ei chyflawni pryd a lle mae ei hangen? (Cwestiwn 16)

- Soniodd (9) o ymatebwyr yn benodol y dylai'r IPA gael digon o adnoddau a chyllid i gyflawni ei nodau gyda (4) yn nodi'r angen i'r rheini sydd â sgiliau priodol gael eu penodi a chael mynediad at ddarpariaeth gyfreithiol briodol gyda (16) yn mynegi dim barn ar y pwnc hwn. Mynegodd eraill safbwyntiau unigryw, fel yr angen am drosolwg Gweinidogol (1) a (1) a deimlai y dylai'r IPA gael pwerau sy'n mynd y tu hwnt i bwerau Gweinidogion.
- Roedd (3) wedi awgrymu y dylid datganoli IPA i Awdurdodau Lleol.
- Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sefydlu 'cronfa' o unigolion â'r sgiliau priodol i ddewis ohonynt banel priodol yn seiliedig ar faint, lleoliad ac effaith y digwyddiad.

Beth yn eich barn chi yw effeithiau'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn ar bobl â nodweddion gwarchoddedig? (Cwestiwn 20)

Ydych chi'n credu bod yr effeithiau hyn yn dderbyniol? (Cwestiwn 21)

- Pan ofynnwyd pa effeithiau y byddai'r IPA yn eu cael ar bobl â nodweddion gwarchoddedig ac a oedd yr effeithiau hyn yn dderbyniol, roedd y canlyniadau'n amhendant gyda (6) a oedd yn teimlo y byddai unrhyw effaith yn dderbyniol, (4) yn credu y byddai unrhyw effeithiau'n annerbyniol a (30) heb ateb y cwestiwn hwn.
- Teimlai'r rhai a atebodd y cwestiwn (3) fod angen i'r holl bartïon dan sylw gael eu trin yn deg, eu cynrychioli'n briodol a sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu.
- Rydym wedi ystyried yr ymatebion a'r effeithiau hyn ar gydraddoldeb yn ofalus wrth lunio'r polisi. Rydym wedi dod i'r casgliad na fydd unrhyw wahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol yn digwydd o ganlyniad i sefydlu'r IPA ac eithrio oedran, gan y bydd cymorth yn cael ei gyfyngu i'r rheini sydd dros 18 oed. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys mecanweithiau yn y polisi i liniaru'r effaith hon, sef i gefnogi plant drwy eu gwarcheidwad cyfreithiol gyda'r opsiwn i drosglwyddo neu ymestyn cymorth pan fyddant yn 18 oed.

# Rhestr o Ymatebwyr

<b>Rhestr o ymatebwyr ysgrifenedig Sefydliadau</b>
Prif Grwner Cymru a Lloegr
Gwasanaeth Crwneriaid EM x3 Ymatebion
Cymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr
Cyngor Thurrock
Cyngor Sir Essex
Maer Llundain
Prif Swyddog Cysylltiadau'r Llywodraeth, Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throsedd
Llywodraeth Cymru, Pennaeth Polisi Cyfiawnder
Cyd-Uned Cynllunio at Argyfwng Suffolk
Cymdeithas Cynllunio at Argyfwng Cangen Gorllewin Canolbarth Lloegr
Swyddfa Annibynnol dros Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
Cwnstablfaeth Avon a Gwlad yr Haf
Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer y Gweithgor Cyswllt Teulu a Lladdiad Cenedlaethol
Prif Arolygydd Damweiniau Awyr (hefyd ar ran canghennau Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd a Morol - AIBs)
Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol (APIL)
Hodge Jones & Allan - Cyfreithwyr
Bindmans LLP
Broudie Jackson Canter (BJC)
Cyngor y Bar; Materion Rheoleiddiol a Diwygio'r Gyfraith
RoadPeace
Relative Justice Humanity for Grenfell
Whatever Next Productions, Coleg Cynllunio Argyfwng Swyddfa'r Cabinet a'r Ganolfan ar y Cyd ar gyfer Ymchwil Trychineb
INQUEST
JUSTICE
Liberty
Sefydliad ar gyfer Syndromau Ataliol (Elusen OACS)

<b>Rhestr o Gyfarfodydd Rhanddeiliaid</b>	
Cyfarfod Rhanddeiliaid 1	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Grenfell United x3 cynrychiolydd</li> <li>2. INQUEST x2 cynrychiolydd</li> <li>3. Cruse Bereavement Care</li> <li>4. Disaster Action a Swyddfa'r Cabinet EPC Uwch Gymrawd ym maes Adfer</li> <li>5. Manchester Attack Support Group</li> <li>6. Tîm Cymorth mewn Profedigaeth ac ôl-ofal y Fyddin</li> <li>7. Woodlands Family Centre</li> <li>8. Ardal crwner Birmingham a Solihull</li> </ol>

	<p>9. Ardal crwner Gorllewin Manceinion  10. Ardal crwner Canol Gorllewin Llundain  11. Swyddfa crwner Norfolk  12. Swyddfa Crwner Swydd Caergrawnt a Peterborough  13. Cyngor Thurrock  14. Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu  15. Awdurdodau Manceinion Fwyaf  16. Liberty  17. Swyddfa Annibynnol dros Ymddygiad yr Heddlu  18. Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol  19. Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau Awyr  20. Awdurdod Diogelwch yr Amddiffyniad  21. Swyddfa Annibynnol dros Ymddygiad yr Heddlu  22. Heddlu Suffolk  23. Swyddfa'r Cabinet</p>
Cyfarfod Rhanddeiliaid 2	<p>1. Prosiect Grenfell  2. Humanity for Grenfell  3. Al-Manar  4. Justice4Grenfell  5. Grŵp Cenedlaethol Agweddau Dynol (Gweithgor y Gymdeithas Cynllunio at Argyfwng)  6. Broudie Jackson Canter, cyfreithwyr  7. Hodge Jones &amp; Allen</p>
Cyfarfod Rhanddeiliaid 3	Panel Annibynnol Hillsborough, Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth
Cyfarfod Rhanddeiliaid 4	Gwasanaeth Crwneriaid EM
Cyfarfod Rhanddeiliaid 5	Tŷ'r Arglwyddi
Cyfarfod Rhanddeiliaid 6	Gwasanaeth Cefnogi Llysoedd y Crwneriaid